

TEITHIAU CERDDED OWRTYN

Owrtyn ac afon Dyfrdwy (trwy Bryn Knolton a Choed Llan y Cefn) 5 milltir

Mae hon yn daith gerdded bleserus ar draws gweirgloddiau tonnog a cheir golygfeydd eang dros gefn gwlad cyfagos ac afon Dyfrdwy. Mae'r llwybr, fel pob un arall yn Owrtyn, wedi'i arwyddo. Dilynwch y saethau melyn i ddarganfod y gamfa neu'r giât nesaf. Nid yw'r llwybr hwn yn addas i gadeiriau olwyn pramiau na phlant bach.

Ceir gwasanaeth bws da i Owrtyn; am wybodaeth ffoniwch 01978 266166.

1. O'r maes parcio gyferbyn ag eglwys Owrtyn, trowch i'r dde (ar hyd Ffordd yr Eglwys) ac yna i'r chwith wrth y groesffordd ar hyd y ffordd fawr (A539 Wrecsam - Eglwyswen). Croeswch y ffordd hon yn syth ac ewch ar hyd rhodfa raean wedi'i harwyddo. Cerddwch trwy ardd y Tŷ Trydan gan gadw'r tŷ ar eich ochr dde ac ewch i'r cae dros gamfa isel. Cerddwch yn syth ymlaen ar draws y caeau gan fynd dros chwe chamfa arall.
2. Ewch ymlaen a dringwch y gamfa nesaf lle mae'r llwybr sydd wedi'i arwyddo yn fforchio. Trowch hanner i'r dde. Ar ôl 100 metr ewch dros y gamfa ac ewch i gyfeiriad y cafn gwartheg concriid crwn mawr yng nghanol y cae. Ar ôl hwn, mae'r llwybr yn mynd i lawr at ardal fach o goed prysg. Croeswch y nant, trowch i'r dde ar hyd llwybr fferm concriid a throwch i'r dde eto wrth y lôn (Lôn Musley).
3. Ar ôl y troad siarp i'r dde, ewch dros y gamfa gyntaf ar y chwith ychydig cyn y fferm. Trowch yn syth i'r chwith ac ail-ddilynwch y gwrych sydd bellach ar yr ochr chwith, gan ddal i gerdded trwy sawl giât fferm a chaeau nes i chi gyrraedd y giât fach. Ewch trwy'r coetir pîn. Yn y cae nesaf, trowch hanner i'r dde ac ewch heibio i'r pwll ar yr ochr chwith tuag at y giât. Ewch trwy'r gorlan anifeiliaid wrth y man golchi defaid, yna trowch i'r dde yn syth ar ôl y gamfa. Dilynwch y gwrych ar yr ochr dde ac ugain metr cyn pen y cae, ewch dros y gamfa a'r bont ar y dde. Trowch i'r chwith a cherddwch o amgylch y pwll.
4. Ar ôl y gamfa nesaf a'r ffos sych, cerddwch yn syth ar draws y cae at y fferm o'ch blaen gan fynd heibio iddo ar y dde. Ewch drwy'r giât a dilynwch y gwrych ar yr ochr chwith nes i chi gyrraedd y ffordd fawr (A528) ar ôl mynd trwy giât arall.
5. Trowch i'r dde a cherddwch ar hyd yr ymyl glaswelltog am oddeutu 60 metr, yna ewch dros y gamfa gyntaf ar yr ochr chwith cyn y lôn. Cadwch i ochr dde'r cae a cherddwch i fyny'r llethr. Ar ôl y gamfa, trowch i'r dde i'r buarth a cherddwch y tu ôl i'r ysgubor ffrâm bren o'r 17eg ganrif, gan fynd ar hyd y rhodfa gerrig. Trowch i'r dde ar hyd y rhodfa ac ewch heibio i hen eglwys Bryn Knolton sydd wedi'i gwneud o haearn rhychiog. Trowch i'r chwith ac i'r chwith eto wrth y gyffordd gyntaf sydd wedi'i thario mewn rhyw 20 metr.

6. Ewch yn syth ar hyd y rhodfa ac mae'r gamfa ychydig fetrau heibio i'r tŷ. Cadwch ar ochr chwith y cae nes i'r gwrych ddechrau gwyro i'r chwith. Ewch yn syth ar draws y cae ac fe welwch y gamfa gyferbyn â'r giât, dan goeden dderw fawr.

7. Anwybyddwch y llwybr sydd wedi'i arwyddo sy'n arwain i'r dde a cherddwch yn syth ymlaen ar draws y cae nesaf at y gamfa ger y giât. Cadwch i'r ochr chwith yn y cae nesaf ac ewch heibio l gafn dŵr. Daliwch i gerdded wrth ochr y ddilyn y gwrych ar yr ochr chwith heibio i bwll a chafn dŵr arall. Ewch dros y gamfa yn y gornel ger y giât. Arhoswch ar y terfyn chwith ac yna cadwch adeilad y fferm ar yr ochr chwith i ddarganfod y gamfa yng nghornel y cae.

8. Trowch i'r dde ar hyd y llwybr fferm at y lôn a throwch i'r chwith. Cerddwch ar hyd y lôn gan gadw llygad am y gamfa ar yr ochr dde mewn rhyw 50 metr (os ydych yn dod at dy ar yr ochr chwith, rydych wedi mynd yn rhy bell!).

9. Ar ôl mynd dros y gamfa hon, dilynwch y gwrych ar yr ochr chwith ac ewch dros pont fechan a camfa wrth gornel gyntaf y cae. Ewch yn syth ymlaen ar draws y cae / cae pel droed at y gamfa nesaf. Dilynwch y gwrych ar yr ochr dde ac ewch dros y gamfa yn y gornel dde ger pwll sydd wedi'i guddio gan brysglwyni. Cerddwch ar hyd y terfyn chwith, ewch dros gamfa arall a daliwch i ddilyn ochr y gwrych wrth iddo wyro tua'r dde. Ewch heibio i bwll ar yr ochr chwith.

10. Ar ôl 150 metr, ger pen y cae, ewch dros y gamfa ar y chwith a throwch i'r dde gan ddilyn y gwrych. Mae'r gamfa'n mynd â chi trwy ardal gadwraeth mewn coetir bach a blannwyd yn 1990. Edrychwch yn groeslinol ar draws y cae nesaf. Mae'r gamfa lle mae'r ffens yn gorffen a'r gwrych yn dechrau. Ewch dros y gamfa a dilynwch y gwrych ar yr ochr dde. Lle mae'r gwrych yn gwyro i'r dde, daliwch i gerdded yn syth ymlaen. Ewch dros y gamfa, a'r nesaf mewn 15 metr. Cadwch ar yr ochr dde trwy diroedd yr ysgubor sydd wedi'i throsi.

11. Wrth y ffordd fawr (B5069 Owrtyn i St Martins) trowch i'r chwith ac yn syth i'r dde ar hyd y rhodfa goediog. Wrth y giatiau du a gwyn a'r grid gwartheg, trowch i'r dde dros y gamfa i'r cae. Cerddwch i lawr y llethr a dros y gamfa yng nghornel y cae. Dilynwch y llwybr dros sawl camfa i Goed Llan y Cefn. Ewch i lawr llwybr sydd wedi'i ddiffinio'n glir at afon Dyfrdwy. Trowch i'r dde ar hyd y llwybr ar lan yr afon, gan sylwi ar yr hen hwrdd hydrolog a ddefnyddiwyd i godi dŵr i dŷ uwchben yr afon yn yr hen ddyddiau.

12. Ar ôl croesi'r bont droed, dilynwch lan yr afon dros dir amaethyddol agored. Ar ôl 400 metr, trowch i'r dde ar hyd y llwybr tuag at y pentref. Wrth y gornel, trowch i'r dde y tu ôl i'r gweithfeydd carthffosiaeth a chroeswch nant ar ddiwedd y ffens gadwyn. Trowch i'r chwith i fyny'r grisiau ac i'r chwith eto ar ben y grisiau. Dilynwch y llwybr trwy'r coed at fwy o risiau sy'n arwain at Ffordd Sir Amwythig. Trowch i'r chwith, croeswch y palmant ac ewch syth ymlaen wrth y groesffordd, gan ddychwelyd i'r maes parcio.

Cynhyrchwyd y daith gerdded hon gan Groundwrk Wrecsam a Sir y Fflint gyda help Ken Farrell a Gordon Emery a chymorth grant gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Fe'i diweddarwyd gyda help pellach gan Ken ac fe'i paratowyd ar gyfer y rhyngwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn 2006.

Anfonwch eich ffotograffau digidol atom, gweler y wefan am fanylion llawn.

Rhowch wybod am unrhyw broblemau trwy

e-bostiwch: <mailto:rightsofway@wrexham.gov.uk>

Neu trwy ffonio: 01978 292057

CADWCH AT Y CÔD CEFN GWLAD

PARCHU - AMDDIFFYN - MWYNHAU

- Byddwch yn ddiogel - cynlluniwch o flaen llaw a dilynwch unrhyw arwyddion
- Gadewch giatiaau ac eiddo fel y gwelsoch nhw
- Amddiffynnwch blanhigion ac anifeiliaid ac ewch â'ch sbwriel adref gyda chi
- Cadwch gŵn dan reolaeth agos
- Ystyriwch bobl eraill